# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 14 Tachwedd 2017

Amser y cyfarfod: 12.30

## 99(v4)

### 1 Teyrngedau i Carl Sargeant AC

(60 munud)

*Yn dilyn yr eitem hon, bydd y Llywydd yn gohirio'r cyfarfod am 30 munud.*

### 2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog - Gohiriwyd o 7 Tachwedd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### Cynnig i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:

(15 munud)

### 4 Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 - Gohiriwyd o 7 Tachwedd

**NDM6554** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Medi 2017.

**Dogfennau ategol**

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017

Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 5 Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 – Gohiriwyd o 7 Tachwedd

**NDM6553** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Hydref 2017.

**Dogfennau ategol**

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017

Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 6 Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017 – Tynnwyd yn ôl

## 7 Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2016-17 – Gohiriwyd o 7 Tachwedd

(60 munud)

**NDM6550** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2016-17.

**Dogfennau ategol**

Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2016-17

Trawsgrifiad, Cyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg 18 Hydref 2017 - Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2016-17

## 8 Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2016-17

(60 munud)

**NDM6560** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2016-17, sy'n manylu ar y gwaith y mae'r Comisiynydd wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi datblygiadau cadarnhaol yn nefnydd y Gymraeg o dan y gyfundrefn safonau iaith, a reolir gan Gomisiynydd y Gymraeg, ar ôl dim ond blwyddyn iddynt ddod i rym, sy'n cynnwys:

a) bod 76 y cant o siaradwyr Cymraeg o’r farn bod gwasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus yn gwella;

b) bod 57 y cant o bobl yn credu bod cynnydd yn y cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio’r Gymraeg;

c) cynnydd o 50 y cant yn 2015-16 i 96 y cant yn 2016-17 yn nifer y gwasanaethau ffôn lle cynigir dewis iaith yn ddiofyn; a

d) cynnydd o 32 y cant yn 2015-16 i 45 y cant yn 2016-17 yn nifer y cynghorau sy’n cynnig pob tudalen ar eu gwefan yn Gymraeg.

**Gwelliant 2** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailystyried diddymu rôl Comisiynydd y Gymraeg fel yr amlinellir ym Mhapur Gwyn Bil y Gymraeg.

**Dogfen Ategol**

[Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2016-17]

## 9 Cynnig i dderbyn argymhelliad y Prif Weinidog ar gyfer Ei Mawrhydi i benodi Cwnsler Cyffredinol

(15 munud)

**NDM6561** [Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol a Rheol Sefydlog 9.1, yn cytuno ar argymhelliad gan Brif Weinidog Cymru i Ei Mawrhydi benodi Jeremy Miles AC fel Cwnsler Cyffredinol.

## 10 Cynnig i amrywio'r drefn ystyried ar gyfer gwelliannau Cyfnod 3 y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

(5 munud)

**NDM6562** [Julie James (Gorllewin Abertawe)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn canlynol:

Adrannau 2 - 94

Atodlen 1

Adran 1

Teitl Hir

**Dogfen ategol**

Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

## 11 Dadl: Mynd i'r Afael â Chamddefnyddio Sylweddau - Gohiriwyd tan 21 Tachwedd

## 12 Dadl: Cyfnod 3 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) - Gohiriwyd tan 28 Tachwedd

## 13 Cyfnod Pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 15 Tachwedd 2017

Eitem 2

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 02/11/17 i'w hateb ar 14/11/17

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

1 OAQ51299

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau caffael cyhoeddus Llywodraeth Cymru?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

2 OAQ51268

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o'r effaith y mae rhaglen cyni Llywodraeth y DU wedi'i chael yng Nghymru?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

3 OAQ51298

Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ymdrin â'r cynnydd disgwyliedig mewn tlodi plant yng Nghymru o ganlyniad i'r newidiadau i fudd-daliadau lles?

**David Rees** *Aberafan*

4 OAQ51283

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am rôl ardaloedd menter yng Nghymru yn y dyfodol?

**Hannah Blythyn** *Delyn*

5 OAQ51260 Tynnwyd yn ôl

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ehangu cyfranogiad ac ymgysylltiad gwleidyddol yng Nghymru?

**Gareth Bennett** *Canol De Cymru*

6 OAQ51297

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i liniaru tagfeydd cynyddol ar draffyrdd a chefnffyrdd yng Nghanol De Cymru?

**David Melding** *Canol De Cymru*

7 OAQ51296

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddiogelwch beicwyr yng Nghymru?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

8 OAQ51264 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau i ddenu a chadw meddygon teulu yng Ngogledd Cymru?

**Simon Thomas** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

9 OAQ51291 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff y Prif Weinidog datganiad ynglŷn â gwaith paratoi ar gyfer y broses o wobrwyo masnachfraint Cymru a'r Gororau?

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

10 OAQ51261

A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau mai polisi Llywodraeth Cymru yw peidio â chaniatáu unrhyw ddatblygiadau cloddio glo brig newydd yng Nghymru?

**Leanne Wood** *Rhondda*

11 OAQ51300 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y Papur Gwyn ynghylch Bil arfaethedig y Gymraeg?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

12 OAQ51273

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu economaidd yng Nghwm Rhymni?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

13 OAQ51301

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o ba more effeithiol y caiff byrddau iechyd Cymru eu rheoli?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

14 OAQ51295 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

Pa gefnogaeth y gall Llywodraeth Cymru ei chynnig i Lein Amlwch?

**Eluned Morgan** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

15 OAQ51288 Tynnwyd yn ôl Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith bosibl y DU yn gadael yr UE ar economi wledig Cymru?

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

---

**Dydd Mawrth 21 Tachwedd 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Dadl: Mynd i'r Afael â Chamddefnyddio Sylweddau (60 munud)
- Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017 (15 munud)
- Cynnig i amrywio'r drefn o ystyried gwelliannau Cyfnod 3 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) (5 munud)
- Dadl: Cyfnod 3 y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (180 munud)

**Dydd Mercher 22 Tachwedd 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Seilwaith Digidol yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)

- Dadl Fer – Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru) (30 munud)
- Dadl Fer – Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 28 Tachwedd 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Datgelu a Ganiateir) (Cymru) 2017 (15 munud)
- Cyfnod 4 y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (15 munud)
- Dadl: Entrepreneuriaeth: Pwrpas Cenedlaethol (60 munud)
- Dadl: Cyfnod 3 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) (60 munud)

**Dydd Mercher 29 Tachwedd 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd) (30 munud)

**Dydd Mawrth 5 Rhagfyr 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus - Yr ymateb i'r ymgynghoriad (45 munud)
- Dadl: Cyfnod 4 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) (15 munud)
- Dadl: Cyllideb Ddrafft 2018-19 (120 munud)
- Dadl: Ansawdd Aer (60 munud)

**Dydd Mercher 6 Rhagfyr 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid (45 munud)
- Cwestiynau i Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip (ynghylch ei chyfrifoldebau) (30 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Fynediad at Drafnidiaeth ar gyfer Pobl Anabl (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Janet Finch-Saunders (Aberconwy) (30 munud)